**Atodiad A – Crynodeb o'r Prif Faterion a godwyd trwy Ymgynghoriad Cyhoeddus**

<u>Cefndir</u>

Mae'r atodiad yma yn crynhoi ar gyfer bob pennod yn y CCA:

- y prif faterion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus;
- ymateb swyddogion i rhain;
- Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd;
- Crynhoad o'r prif faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad ar y newidiadau yma;
- Ymateb swyddogion i rhain;
- Crynhoad o newidiadau i'r Bennod yn y fersiwn derfynol.

Fe ddylid darllen yr atodiad yma ar y cyd efo Atodiad 'B' sydd yn cynnwys tablau cyflawn o'r holl sylwadau i'r **Ymgynghoriad Gwreiddiol** ac ymateb y Cyngor iddynt ac Atodiad 'C' sydd yn cynnwys tablau cyflawn o'r holl sylwadau ar y **Newidiadau Arfaethedig** sydd wedi ei derbyn ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau yma.

Ceir copi o'r CCA i'w fabwysiadu yn Atodiad 'CH'.

| **<u>Pennod 1 – Cyflwyniad</u>** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | Dim materion sylweddol yn cael eu codi. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Y Cyngor wedi cyflwyno 2 Newid Arfaethedig yn y bennod yma, sef paragraff yn cadarnhau pwysau wrth ddelio efo cais a phwynt bwled bellach ar gyfer Amcan y CCA. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Ni yw'r term 'amgylchiadau presennol' yn briodol. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Cytuno efo hyn. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Tynnu allan y term yma hefyd newid y Cyflwyniad i adlewyrchu'r ffaith mae hwn yw'r CCA sydd wedi ei fabwysiadu. |

| **<u>Pennod 2 – Cefndir</u>** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Cwestiynu faint o swyddi sydd yn cael eu creu yn yr ardal o dyrbeini gwynt.<br>• Honni y profwyd nad yw tyrbinau gwynt yn cyfrannu tuag at leihau carbon atmosfferig.<br>• Dylid diweddaru'r tabl am y nifer o geisiadau yn yr ardal.<br>• Angen gwneud yn glir pryd bydd mwy o |

| **Pennod 2 – Cefndir** | |
|---|---|
| | bwysau yn cael ei roi i ddatblygiad ynni adnewyddol a phryd i warchod y dirwedd. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Cyflwyno newid arfaethedig i baragraff 3.16 i amlinellu beth yw'r nifer o swyddi y gellid eu cael o ynni adnewyddol.<br>• Dim tystiolaeth wedi ei dderbyn ar gyfer y sylwadau nad yw tyrbinau yn cyfrannu tuag at leihau carbon atmosfferig a swyddogion heb ddod ar draws tystiolaeth chwaith.<br>• Pwrpas y tabl oedd cyflwyno rhan o'r cyfiawnhad ar gyfer creu CCA, gan roi ciplun o'r sefyllfa ar y pryd. Dim bwriad i'w ddiweddaru.<br>• Rhaid pwyso a mesur fesul cais i weld beth yw'r manteision ac effeithiau posib unrhyw gais |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Y Cyngor wedi cyflwyno 2 Newid Arfaethedig yn y bennod yma. Yr un sylweddol yw PC3 sef paragraff newydd ar sut mae newid hinsawdd wedi dylanwadu polisi cynllunio ar gyfer datblygiadau tyrbinau gwynt. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Dylid cael mwy o ganllaw ar gyfer beth yw capasiti yr ardal i ymdopi efo tyrbinau gwynt yn yr ardal. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Bydd gwaith Asesu Sensitifrwydd a Chapasiti'r Tirwedd mae'r Cyngor wedi ei gomisiynu yn rhoi cyfarwyddyd pellach ar gyfer hyn. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Cynnwys cyfeiriad i'r gwaith Sensitifrwydd mewn paragraff newydd 7.5.8a. |

| **Pennod 3 – Y Cyd-destun Polisi** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Angen sicrhau bod ymgysylltu efo'r gymuned yn cymryd lle.<br>• Dylid cyfeirio tuag at y rhan o TAN8 sydd yn dweud na ddylai budd cymdeithasol ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio.<br>• Angen pwysleisio mae'r CDU sydd yn cael blaenoriaeth dros bolisïau eraill.<br>• Angen egluro beth yw ystyr 'bach' a 'cymunedol' ar gyfer y CCA.<br>• Dylid cael asesiad o effaith tyrbinau ar dwristiaeth.<br>• Dylid cyfeirio tuag at baragraff 3.7.2 o TAN6 sydd yn cefnogi ynni adnewyddol ar ffermydd. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Yn unol efo canllaw Cenedlaethol mae'r CCA yn hybu ymrwymiad cymunedol ond |

| **Pennod 3 – Y Cyd-destun Polisi** | |
|---|---|
| | ni ellid ei orfodi.<br>• Tra fod y Cyngor yn gefnogol i fudd cymunedol o fath ddatblygiadau mae pennod 11 yn datgan yn glir na ddylai budd cymunedol ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio.<br>• Newid arfaethedig PC1 yn esbonio'r pwysau ddylid ei roi i'r CDU ac ystyriaethau perthnasol arall.<br>• Newid arfaethedig PC20 yn rhoi fwy o esboniad o fewn pennod 6 ar gyfer beth yw tyrbin bach a PC45 ar gyfer datblygiad cymunedol.<br>• Dim tystiolaeth gadarn ar gyfer effaith ar dwristiaeth. Adroddiad diweddar (Chwefror 2014) i Lywodraeth Cymru gan regeneris yn dangos nad oes tystiolaeth bod effaith arwyddocaol ar dwristiaeth o ddatblygiadau ynni gwynt ar y tir.<br>• Mae PC46 yn cyfeirio tuag at ddatblygiadau ar ffermydd. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 4 Newid Arfaethedig yn y bennod yma. Y rhai sylweddol yw esboniad pellach ar gyfer gwaith Gwynedd Werdd ar gyfleoedd o ddatblygiadau Ynni Adnewyddol a disgrifiad o bwrpas yr AHNE. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Sylw yn dweud y dylid esbonio yn gliriach beth yw cyfraniad tyrbinau gwynt ar y tir i ffigyrau adroddiad Gwynedd Werdd. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Cytuno y dylid esbonio hyn y gliriach. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Cyflwyno brawddeg ychwanegol yn esbonio beth yw cyfraniad Ynni Gwynt ar y Tir i'r ffigyrau yma |

| **Pennod 4 – Nodweddion Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Dylid cyfeirio tuag at Pen Llyn a'r Sarnau (PLAS) SAC.<br>• Dim cyfeiriad tuag at Dirwedd Arbennig a Hanesyddol. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Mae dynodiad PLAS SAC ar gyfer cynefinoedd tanfor ac felly ddim yn berthnasol.<br>• Cytuno y dylid cynnwys cyfeiriad tuag at Dirwedd Arbennig a Hanesyddol. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 2 Newid Arfaethedig ar gyfer man newidiadau. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr | Dim sylwadau. |

| | |
|---|---|
| ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Dim newidiadau pellach. |

| **Pennod 5 – Ardaloedd o Gyfyngiadau** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Cefnogi dim tyrbinau yn yr AHNE.<br>• Angen gwarchod gosodiad yr AHNE trwy greu byffer.<br>• Dylid cyflwyno uchafswm penodol ar gyfer tyrbinau yn y Diwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Polisi C26 yn glir yn dweud dim tyrbinau yn yr AHNE.<br>• Cyfarwyddyd blaenorol gan CCGC (sy'n rhan o CNC rŵan) nad yw'n briodol i gyflwyno byffer i'r AHNE gan gall effaith cais ddibynnu fwy neu lai ar natur lleoliad penodol.<br>• Dim tystiolaeth benodol wedi ei gyflwyno i gyfiawnhau uchder penodol o fewn y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig a swyddogion heb ddod ar draws tystiolaeth chwaith. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 9 Newid Arfaethedig. Yr un mwyaf sylweddol yw PC12 oedd yn ail eirio paragraff ar gyfer Tirwedd, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Dim ond un sylw o gefnogaeth. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | • Cynnwys cyfeiriad tuag at waith Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd sydd yn cymryd le ar hyn o bryd ym mharagraff 7.5.8a. |

| **Pennod 6 – Mathau a Meintiau o Dyrbinau Gwynt** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Dim ond yn cefnogi graddfa fach neu rhai cymunedol yn yr ardal (gwahanol uchder yn cael ei gynnig).<br>• Angen diffiniad gwell o raddfa fach h.y. y gwahaniaeth rhwng 20m i'r llafn a chreu hyd at 5MW o bŵer.<br>• Honni bod cyfyngu datblygiadau i 5MW yn groes i PCC sydd yn cyfeirio tuag at |

| | |
|---|---|
| | ddatblygiadau hyd at 25MW.<br>• Angen byffer o amgylch yr AHNE a Pharc Eryri.<br>• Angen byffer rhwng gwahanol geisiadau i atal creu fferm wynt mewn ardal. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno i gyfiawnhau mai dim ond tyrbinau bach neu gymunedol yn unig y dylid eu hyrwyddo yn yr ardal.<br>• Cytuno bod yna beth dryswch o fewn y bennod ar gyfer y gwahaniaeth rhwng maint ar sail uchder a maint ar sail pŵer a grëir.<br>• TAN8 yn cyfeirio yn glir tuag at uchafswm o 5MW efo hyd at 25MW ar hen safleoedd diwydiannol.<br>• Gweler ymateb i Bennod 5 ar gyfer byffer i'r AHNE a'r Parc Cenedlaethol.<br>• Mae'r CCA yn cyfeirio tuag at ystyriaeth i effaith cyfres o geisiadau unigol yn ffurfio fferm wynt a'r effaith gronnol o ddatblygiadau. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 2 newid arfaethedig sef esboniad cliriach o ddiffiniad maint tyrbinau ac esboniad ar gyfer yr angen am Asesiad Effaith Amgylcheddol efo ceisiadau. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | • Dylid cyfyngu ar dyrbinau i 11m yn yr Ardal Tirwedd Hanesyddol a 15m yn weddill o Wynedd.<br>• Angen esboniad cliriach beth yw bach yng nghyd-destun tyrbinau gwynt. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim cyfiawnhad wedi ei gyflwyno i gyfiawnhau cyfyngu tyrbinau i 11m yn yr Ardal Tirwedd Hanesyddol a 15m i weddill o'r ardal. Mae gwaith ar Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd wedi ei gomisiynu gan y Cyngor a dylid cyfeirio tuag at hwn. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | • Cynnwys cyfeiriad tuag at waith Sensitifrwydd a Chapasiti Tirwedd sydd yn digwydd ar hyn o bryd ym mharagraff 7.5.8a.<br>• Cynnwys cyfeiriad i geisiadau am dyrbeini unigol yn ail frawddeg paragraff 6.6d. |

| **Pennod 7 – Materion Allweddol** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Honni fod canllawiau ETSU-R-97 (sy'n ymwneud a sŵn) yn anaddas.<br>• Dylid cael Asesiad Effaith Amgylcheddol |

| **Pennod 7 – Materion Allweddol** | |
|---|---|
| | (EIA) efo'r holl geisiadau.<br>• Dylai'r pellteroedd o dai fod yn 500m neu 20 gwaith uchder y twrbin prun bynnag sydd fwyaf.<br>• Dim cyfiawnhad dros gael isafswm pellteroedd gwahanu yn hytrach dylai pellteroedd gwahanu fod yn ffordd o adnabod angen am Asesiad Mwynder i Dai.<br>• Angen canllaw cliriach ar gyfer effaith ar y dirwedd, LVIA dim yn ddigonol.<br>• Cynyddu pellter ar gyfer asesu effaith ar y dirwedd o 30km i 50km.<br>• Dim cyfeiriad tuag at ardaloedd Tirwedd Arbennig.<br>• Effaith gronnol dim yn cael sylw priodol, eisiau map o holl geisiadau ar safle we'r Cyngor.<br>• Dylid cael rhestr o arbenigwyr priodol sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.<br>• Poeni am effaith ar dwristiaeth yn yr ardal. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Mae'r Llywodraeth yn dal i ddefnyddio ETSU-R-97 fel teclyn asesu effaith sŵn.<br>• Mae yna ganllaw priodol ar gyfer asesu os oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol efo cais.<br>• Mae Llywodraeth Cymru wedi ategu y dylid delio efo pob cais achos wrth achos gan ystyried y ffactorau unigol sydd yn berthnasol. Oherwydd hyn nid yw'n briodol cynnwys pellteroedd gwahanu o dai, fodd bynnag mae yn briodol cynnwys canllaw ar gyfer pryd bydd angen Asesiad o Effaith Mwynder ar Dai o fewn pellteroedd penodol i ddatblygiad.<br>• Y LVIA yw'r fethodoleg gydnabyddedig ar gyfer asesu effaith ar y dirwedd. Mae Atodiad i'r CCA yn nodi mae isafswm yw'r ffigwr o 30km a ddefnyddir.<br>• Ymateb i bennod 4 yn cytuno i gyfeirio tuag at Dirwedd Arbennig a Hanesyddol.<br>• Teimlir bod sylw perthnasol yn cael ei roi i'r effaith gronnol. Ddim yn cytuno efo'r angen ar gyfer map o holl geisiadau ar y safle we. Fodd bynnag mae'r Cyngor yn cadw cofrestr o'r holl geisiadau ac felly hefo'r wybodaeth briodol ar gyfer y sefyllfa yn ardal y Cyngor, os gofynnir amdano. |

| **Pennod 7 – Materion Allweddol** | |
|---|---|
| | • O'r farn ei bod yn well gofyn am arbenigwyr efo cymwysterau priodol yn hytrach na chreu rhestr o arbenigwyr sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor.<br>• Gweler sylw ym mhennod 3 ar gyfer yr effaith ar dwristiaeth. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 25 newid arfaethedig a thra bod y rhan fwyaf yn golygu man newidiadau mae yna 3 sylweddol. Rhain yw esboniad bod pellter gwahanu ar gyfer cael Asesiad Mwynderau Preswyl (RAA), rhan newydd ar Gynlluniau a Arweinir gan Gymunedau a Datblygiad ar Ffermydd. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | • Eisiau ail gyflwyno'r gair lleiafswm (h.y. pellter o dai) o fewn y CCA.<br>• Teimlir fod y rhan newydd ar Ddatblygiadau ar Ffermydd yn darllen fel polisi yn hytrach na chanllaw. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Ddim yn cytuno efo ail gyflwyno'r gair lleiafswm.<br>• Cytuno bod angen adolygiad o'r rhan Datblygiadau ar Ffermydd. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | • Newid cyfeiriad tuag at ffermydd gwynt ym mharagraff 7.7.3 i tyrbinau gwynt.<br>• Cynnwys cyfeiriad i'r gwaith sensitifrwydd tirwedd ym mharagraff 7.5.8a.<br>• Newid paragraff 7.8.3 trwy gyfeirio tuag at Gynghorydd Archaeoleg Gwynedd.<br>• Newid y rhan Ddatblygiadau ar Ffermydd trwy ddileu'r paragraff cyntaf a newid y trydydd frawddeg i amlygu bod meini prawf polisi C26 yn briodol.<br>• Cynnwys cyfeiriad i'r gwaith Cyflwyno Pellteroedd Gwahanu o Eiddo Preswyl ym mharagraff 7.9.10a. |

| **Pennod 8 – Lleoliad a Dyluniad** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Ceir cyfeiriad tuag at bellteroedd gwahanu rhwng tai a tyrbinau.<br>• Dim digon o ganllaw ar gyfer effaith bosib ar y tirwedd. Angen mwy o sylw i'r effaith gronnol.<br>• Dylid cyfyngu ar faint tyrbinau i ddim mwy na 15m y tu allan i'r AHNE yn Ardal Cynllunio Gwynedd. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Gweler sylw ym mhennod 7 ar gyfer pellteroedd o dai. |

| **Pennod 8 – Lleoliad a Dyluniad** | |
|---|---|
| | • Teimlir bod rhan 7.6 ac Atodiad 4 y rhoi manylder clir ar gyfer asesu effaith tyrbinau ar y dirwedd.<br>• Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno i gefnogi cyfyngu tyrbinau i uchder o 15m yng ngweddill o ardal y Cyngor. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 1 Newid Arfaethedig oedd yn cynnwys linc i ddogfen benodol ar gyfer arweiniad pellach am leoliad a dylunio tyrbinau gwynt. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Dim sylwadau. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Dim newidiadau pellach. |

| **Pennod 9 – Datgomisiynu ac adfer tir**<br>**Pennod 10 – Gofynion gyda Chais** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Dylid cael bond ar gyfer ddatgomisiynu.<br>• Cyflwyno amod er mwyn datgomisiynu twrbein sydd heb fod mewn defnydd am gyfnod penodol. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Cytuno y dylid adolygu y rhan ar gyfer datgomisiynu er mwyn rhoi mwy o gyfarwyddyd ar gyfer yr angen am fond a chyfnod o twrbein ddim yn cael ei ddefnyddio. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 4 Newid Arfaethedig i bennod 9 a dim i bennod 10. Rhain yn rhoi arweiniad cliriach ar gyfer amodau i adfer safle a chyfarwyddyd ar gyfer sicrhau bod adnoddau mewn lle i'w datgomisiynu. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Dim sylwadau. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Dim newidiadau pellach. |

| **Pennod 11 – Manteision Cymunedol a Chyfraniadau Datblygwyr** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Ni ddylid cyfeirio tuag at y materion yma yn y CCA.<br>• Efo cais cymunedol mae angen sicrhau bod sylwadau'r holl gymuned yn cael ystyriaeth. |

| **Pennod 11 – Manteision Cymunedol a Chyfraniadau Datblygwyr** | |
|---|---|
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Mae yn briodol cyfeirio tuag at y materion yma gan eu bod yn cael eu cynnwys yn TAN8.<br>• Bydd holl sylwadau sydd yn codi materion cynllunio yn cael sylw perthnasol wrth ddelio efo unrhyw gais bod o yn un gymunedol neu beidio. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 3 Newid Arfaethedig, yr un mwyaf sylweddol oedd PC53 er mwyn rhoi cyfarwyddyd am fudd cymdeithasol efo datblygiad. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Bod y ffigwr o £5,000 am bob MW yn rhy isel. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Ni chafwyd unrhyw ffigwr newydd ei gynnig na chwaith cyfiawnhad dros ofyn am fwy. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Tynnu allan y cyfeiriad i Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig ym mharagraff 11.6 a cytundebau 106 ym mharagraff 11.8. Hefyd ychwanegu y geirfa 'Fel ymarfer da yn unig' ym mharagraff 11.8. |

| **Pennod 12 – Manylion Cyswllt** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | Dim materion sylweddol yn cael eu codi. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 1 man newid arfaethedig. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Dim sylwadau. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Dim newidiadau pellach. |

| **Pennod 13 – Darllen Pellach** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | Dim materion sylweddol yn cael eu codi. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 1 man newid arfaethedig. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Dim sylwadau. |

| | |
|---|---|
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Dim newidiadau pellach. |

| **Pennod 14 – Rhestr Termau** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Angen ail eirio diffiniad o Henebion Hynafol Rhestredig. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Cytuno efo'r eirfa newydd a gynigir. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwyno'r eirfa newydd ar gyfer diffiniad o Henebion Hynafol Rhestredig. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Dim Materion |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Dim yn berthnasol |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Dim newid pellach. |

| **Atodiadau** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Dim yn glir beth yw pwrpas y mapiau a sut y byddent yn cael ei defnyddio. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Rhain yn rhan o'r sail ar gyfer Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol. Cytuno y gellid esbonio hyn yn well yn Rhan 11 o Atodiad 4. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 9 Newid Arfaethedig efo'r mwyafrif o rhain yn fan newidiadau. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | • Angen adolygu radiws asesiad effaith cronnol.<br>• Gwall yn PC61 trwy ail adrodd brawddeg. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno i gefnogi'r sylw am radiws asesiad effaith cronnol.<br>• Cytuno i newid PC61 trwy dynnu allan brawddeg. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Tynnu allan brawddeg o PC61. |

| **Sylwadau Cyffredinol** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Prinder o fanylion clir o fewn y CCA.<br>• Teimlir bod y CCA yn rhy gaeth a ddim yn adlewyrchu Polisi Cenedlaethol.<br>• Beth yw'r targed y dylai Gwynedd ei gyfarch a thrwy ba fath o ynni adnewyddol bydd hyn? |

| **Sylwadau Cyffredinol** | |
|---|---|
| | • Cyfeiriad tuag at arbenigwyr annibynnol wedi ei asesu gan y Cyngor.<br>• Dim yn adlewyrchu casgliadau adroddiad Gwynedd Werdd ar gyfer cyfleoedd Ynni Adnewyddol yn enwedig y 3 safle efo capasiti o hyd at 25MW. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Mae yna fanylder clir o fewn y CCA fodd bynnag mae natur y math yma o ddatblygiadau yn golygu na ellir cyflwyno manylder clir ar yr holl faterion perthnasol.<br>• Mae pennod 3 yn cyfeirio tuag at bolisi cenedlaethol a'r materion i'r CCA ei ystyried.<br>• Nid yw polisi cenedlaethol yn creu targed i Awdurdodau unigol.<br>• Cyfeirir tuag at arbenigwyr annibynnol mewn ymateb ym mhennod 7.<br>• Pwrpas astudiaeth Gwynedd Werdd oedd Sgopio ar lefel strategol cyfleoedd posib gwahanol ynni adnewyddol yn nhermau gofynion technegol yng Ngwynedd. Ar gyfer y 3 ardal efo potensial am 25MW fe gydnabyddir fod y rhain yn agos i'r Parc Cenedlaethol a all olygu ei bod yn wynebu cyfyngiadau cynllunio o ran, er enghraifft, effaith posib ar olygfeydd i mewn neu allan o'r Parc. Nid yw adnabod y safleoedd efo potensial yn rhoi unrhyw sicrwydd y byddai cynnig yn derbyn caniatâd cynllunio. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Dim wedi ei chyflwyno |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | Sylwadau am fan wallau yn y ddogfen |
| Ymateb Swyddogion i rhain | Cytuno i wneud cywiriadau i ddelio efo'r man wallau megis camsillafu. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | Man newidiadau. |

| **SA/SEA/HRA** | |
|---|---|
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Drafft Cyntaf | • Mae angen nodi fod angen asesiadau priodol e.e. EIA, ar gyfer bob datblygiad ynni gwynt.<br>• Mae angen rhagor o wybodaeth am bwrpas y broses AAS.<br>• Efallai nad yw'r wybodaeth waelodlin a ddefnyddiwyd yn gyfoes. Dim tystiolaeth |

| | |
|---|---|
| | gadarn wedi ei gyflwyno i gefnogi hyn.<br>• Nid yw rhai o amcanion yr AAS yn berthnasol.<br>• Credir fod maint a dyluniad y datblygiad hefyd yn ystyriaethau pwysig.<br>• Dylid cryfhau gwarchodaeth bioamrywiaeth yn y ddogfen.<br>• Mân sylwadau wedi eu cyflwyno ar y ddogfen ARhC. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Bydd yr angen am asesiad EIA yn ddibynnol ar nifer o ffactorau gwahanol.<br>• Cytuno y dylid ychwanegu mwy o wybodaeth am y broses.<br>• Ystyrir fod y waelodlin yn gyfoes.<br>• Nodir yn y ddogfen ble nad yw amcanion yn berthnasol. Teimlir ei bod yn bwysig gael cysondeb gyda dogfennau AAS eraill sydd wedi'u seilio ar faterion sy'n wynebu Gwynedd.<br>• Cytuno y dylid cyfeirio at ddyluniad a lleoliad a chryfhau'r warchodaeth at fioamrywiaeth.<br>• Mân newidiadau wedi eu cyflwyno i'r ddogfen ARhC. |
| Newidiadau Arfaethedig a gyflwynwyd | Cyflwynwyd 8 newid arfaethedig i'r AAS a 3 newid i'r ddogfen ARhC gyda'r mwyafrif o'r rhain yn fân newidiadau. |
| Prif Faterion a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Newidiadau Arfaethedig | • Efallai nad yw'r wybodaeth waelodlin a ddefnyddiwyd yn gyfoes.<br>• Nid yw rhai o amcanion yr AAS yn berthnasol.<br>• Y dylid gwrthod tyrbinau gwynt micro a bach os ydynt o fewn yr AHNE. |
| Ymateb Swyddogion i rhain | • Ystyrir fod y waelodlin yn gyfoes.<br>• Nodir yn y ddogfen ble nad yw amcanion yn berthnasol. Teimlir ei bod yn bwysig gael cysondeb gyda dogfennau AAS eraill sydd wedi'u seilio ar faterion sy'n wynebu Gwynedd.<br>• Cytunir y dylid ail-eirio'r rhan sy'n cyfeirio at dyrbinau o fewn yr AHNE. |
| Newidiadau i'r Fersiwn a Argymhellir i'w Fabwysiadu. | • Mân newidiadau. |